## Hei Hogia Bach!

Cyswllt: Nia Gruffydd, Canolfan Llyfrgell Caernarfon (01286 679465)





**Beth ydi'r cynllun?**

- Sioe ar gyfer disgyblion B5/6 neu CA2.
- Yn y cyflwyniadau mae tri actor yn darllen darnau allan o 6 llyfr (3 llyfr Cymraeg a 3 llyfr Saesneg)
- Maent yn gyflwyniadau hwyliog gyda'r amcan o ysgogi plant i ddarllen y llyfrau hyn drostynt eu hunain.
- Mae set o'r llyfrau yn cael eu prynu i bob ysgol sy'n cymryd rhan.
- Gall sioe Hei Hogia Bach fod yn gyfrwng i gefnogi neu gyfoethogi eich strategaeth ddarllen, ac yn fodd i hybu darllen ymhlith darllenwyr anfoddog, yn enwedig bechgyn.

**"Doniol - dwyn sylw'r bechgyn".**

**"...chydig o awyr iach yn y dosbarth. Diolch yn fawr."**

Rydym yn bwriadu trefnu sioe arall ar gyfer 2010/2011 - felly os oes gan eich ysgol diddordeb mewn derbyn sioe yna gadewch i mi wybod! Bydd tâl bychan o £40 yn cael ei godi eleni - i gynnwys set o lyfrau - ac mae opsiwn i brynu gweithdy drama pellach fel rhan o'r sioe.

## PROSIECT DILYNIANT y GYMRAEG

Mae ysgolion cynradd ac uwchradd dalgylch **Syr Thomas Jones** yn gweithredu Prosiect Dilyniant a noddir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, er mwyn hyrwyddo dilyniant yn y Gymraeg rhwng CA2 a CA3 ac yn y gymuned. Mae'r prosiect yn profi'n llwyddiannus iawn drwy gynnal gweithgareddau yn yr ysgol ac yn y gymuned er mwyn codi proffil y Gymraeg ac amlygu manteision dwyieithrwydd.

## TROCHI


Yn **Ysgol Uwchradd Bodedern** yn ystod hanner tymor olaf pob blwyddyn cynhelir cwrs 'trochi' i ddisgyblion B6 yn yr ysgol uwchradd. Nod y cwrs yw sicrhau bod y disgyblion hynny sydd yn trosglwyddo ar lefel 2 yn y Gymraeg yn codi lefel i lefel 3 er mwyn ymuno gydag un o'r dosbarthiadau dwyieithog y mis Medi canlynol. Fel arfer, mae oddeutu 20 o ddisgyblion yn mynychu'r cwrs ac fe'i cefnogir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Yn yr un modd, gweithredir prosiect tebyg yn nalgylch Bangor gyda disgyblion yn trosglwyddo i ddilyn y Gymraeg fel iaith gyntaf yn **Ysgol Tryfan**, wedi cyfnod 'blasu' yn y Gymraeg yn B5 a 6 cyn trosglwyddo o'r ysgolion cynradd.

## Cyd-gysylltwyr Iaith Dalgylchol

Mae Cyd-gysylltydd Iaith (sef athro neu athrawes gynradd) yn gweithio gyda'r ysgolion cynradd ac uwchradd ym Môn a Gwynedd. Maent yn rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau dilyniant priodol i'r Gymraeg wrth i'r disgyblion drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd (yn ôl Carfanau Iaith y Polisi Iaith).

# Ffarwelio â dwy athrawes - wedi 19 mlynedd!



Ffarweliwyd â dwy athrawes wedi 19 mlynedd yn gweithio yng nghanolfannau iaith Môn a Gwynedd.

Eirlys Jones yn bennaeth ar Ganolfan Iaith Môn - Moelfre a Chaergybi, a Blodeuwedd Wyn yn athrawes yng Nghanolfan Iaith Maesincla yng Nghaernarfon. Bydd colled fawr ar ôl y ddwy ohonynt. Mae cenedlaethau o blant wedi manteisio ar eu harbenigedd a'u brwdfrydedd. Dymunir yn dda i'r ddwy ar eu hymddeoliad.

Dymunir yn dda i'r ddwy fydd yn eu dilyn - sef Nesta Davies yn Bennaeth ar Ganolfan Iaith Môn, ym Moelfre, a Lowri Elen Rhys yn athrawes yng Nghanolfan Iaith Maesincla.